

Gweithgaredd 4

Hawliau a chyfrifoldebau yn yr ystafell ddosbarth

Nod: Annog plant i feddwl am hawliau ynghyd â chyfrifoldebau yn yr ystafell ddosbarth a nodi ymddygiad sy'n parchu ac yn amharchu hawliau dynol. **Amser:** 40 munud. **Oedran:** 7+.

Yr hyn sydd ei angen arnoch: Papur a phensil (i bob plentyn); siart droi neu fwrdd gwyn; *Siarter hawliau'r dosbarth a Siarter cyfrifoldebau'r dosbarth* (i'w cael ar y CD, i'w chwyddo a'u harddangos).

Beth i'w wneud

Esboniwch fod gan bawb yn yr ysgol yr hawl i ddysgu, i fod yn ddiogel ac yn hapus. Yn ogystal, mae'n gyfrifoldeb arnom i sicrhau nad ydym yn ymddwyn yn y fath fodd sy'n amharchu hawliau dynol pobl eraill.

Hawliau

Gofynnwch i'r disgyblion beth, yn eu tyb hwy, y gellir ei wneud yn eu hystafell ddosbarth er mwyn sicrhau bod pawb yn mwynhau eu hawl i:

- fod yn ddiogel;
- bod yn hapus;
- dysgu.

Gofynnwch iddynt weithio ar eu pennau eu hunain i ysgrifennu tri pheth a fydd yn helpu'r hawliau hyn, ee: Yr hawl i fod yn DDIOGEL – rhoi pethau peryglus i gadw Yr hawl i fod yn HAPUS – cael eich trin yn garedig Yr hawl i DDYSGU – digon o lyfrau a phapur

Yn dilyn hyn, mewn parau, dylai'r plant gyfuno eu syniadau a rhyngddynt gytuno ar y tri gorau. Yn awr, cynhaliwch drafodaeth dosbarth a gwnewch restr o hyd at ddeg eitem maent i gyd yn cytuno arnynt, a'u nodi ar y bwrdd gwyn neu'r siart droi. Dyma eu **Siarter hawliau dosbarth**.

Dangoswch a thrafodwch y **Siarter hawliau'r dosbarth** a luniwyd gan ddisgyblion Blwyddyn 6 ysgol yn Swydd Hampshire. Beth yw eu barn hwy am y syniadau hyn? A fyddent yn ychwanegu neu'n newid unrhyw beth? Ydyn nhw wedi meddwl am bawb sy'n defnyddio'r ystafell ddosbarth hon, e.e. athrawon, dosbarthiadau eraill, glanhawyr?

Cyfrifoldebau

Esboniwch fod gan bawb yn yr ysgol yr hawl i ddysgu a bod yn ddiogel ac yn hapus. Ond os yw hyn yn iawn ar ein cyfer ni, wedyn mae gan bawb arall hawl iddo hefyd. Mae angen i ni sicrhau nad ydym yn amharchu hawliau pobl eraill drwy fwynhau ein hawliau ein hunain.

Trafodaeth

Fel dosbarth, trafodwch rai o'r canlynol:

- Allwch chi feddwl am rai enghreifftiau o bobl sy'n amharchu hawliau dynol eraill? Pam mae rhai pobl yn ymddwyn yn y modd hwn?
- Sut y gallwn osgoi ymddwyn yn annheg ac amharchu hawliau eraill?
- A oes gwahaniaeth rhwng hawliau a chyfrifoldebau athrawon ac oedolion eraill?
- Sut mae'n teimlo i gael eich hawliau wedi'u hamharchu gan eraill?

Nawr, gofynnwch i'r dosbarth edrych ar **Siarter cyfrifoldebau'r dosbarth** a luniwyd gan ddisgyblion Blwyddyn 6. A all y plant lunio **Siarter cyfrifoldebau'r dosbarth** tebyg i'w osod ochr â'u **Siarter hawliau dosbarth** hwy?

Gwaith cartref/ymestyn

- Mewn grwpiau, gall y plant lunio rhestrau o hawliau a chyfrifoldebau yn yr iard chwarae, gartref neu yn y gymuned.

Nodyn i athrawon: Am fwy o wybodaeth ar ddatblygu siarteri dosbarth gan gynnwys sut i archwilio'r berthynas rhwng hawliau a chyfrifoldebau, gweler y cyngor a ddatblygwyd gan UNICEF fel rhan o'u rhaglen Gwobrau Ysgolion sy'n Parchu Hawliau. <http://rrsa.unicef.org.uk>



Ffynhonnell: *Our World Our Rights*, Gweithgaredd 1.